

Cyngor wrth ysgrifennu a chyfieithu Cymraeg Hawdd ei Deall



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru



Hawdd ei
Ddeall Cymru
Easy Read
Wales

Diweddarwyd 2025

Cynnwys

Cyflwyniad a chyngor cyffredinol.....	4
1.1. Llunio brawddeg neu ffurfio cystrawen.....	5
1.2. Cyflwyno gwybodaeth	7
1.3. Gwirio eich gwaith	8
Cyngor manylach ac enghreifftiau.....	9
2.1. Geirfa	9
2.2. Geiriau tafodieithol.....	9
2.3. Geiriau lleol neu blwyfol eu naws	10
2.4. Geiriau benthyg.....	10
2.5. Geiriau anodd eu deall	11
2.6. Cysondeb Termiau	12
2.7. Termiau swyddogol a ffynonellau.....	13
2.8. Geiriau/ymadroddion i'w hosgoi	14
2.9. Ansoddeiriau.....	21

2.10. Arddodiaid.....	21
2.11. Arddodiaid rhediadol.....	21
2.12. Berfau yn eu ffurf gwmpasog.....	22
2.13. Berfau cryno yn yr Amser Gorffennol	23
2.14. Berfau ymadroddol Saesneg	24
2.15. Ffurfiâu negyddol berfau	24
2.16. Cyfarch y darlennydd yn uniongyrchol ag ail berson lluosog berfau	25
2.17. Enwau	25
2.18. Atalnodi	25
2.19. Rhifolion.....	27
2.20. Trefnolion	27
Dyluniad Hawdd ei Ddeall.....	28
Diolch	30

Cyflwyniad a chyngor cyffredinol

Dyma rai argymhellion a all fod o fudd wrth ysgrifennu testun hawdd ei ddeall yn Gymraeg, neu gyfieithu testun hawdd ei ddeall i'r Gymraeg.

Fel y mae Cen Williams yn ei argymell yn [Cymraeg Clir](#), brawddegau byr mewn Cymraeg naturiol sydd eu hangen ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir wrth ysgrifennu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu – ond gydag ambell ystyriaeth bellach!

Mae pob un o 12 rheol [Cymraeg Clir](#) yn berthnasol wrth ysgrifennu testun hawdd ei ddeall.

Mae'r ddogfen hon yn ymhelaethu ar rai o'r rheolau hynny ac yn rhoi sylw i egwyddorion eraill i'w cadw mewn cof.

Gyda phobl ag anabledd dysgu mae angen rhoi hyd yn oed mwy o feddwl i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir, ac ystyried pa mor hawdd eu deall ydyn nhw.

1.1. Llunio brawddeg neu ffurfio cystrawen

Mae ysgrifennu neu gyfieithu testun hawdd ei ddeall yn broses sy'n gofyn am sgiliau ychydig yn wahanol i ysgrifennu neu gyfieithu arferol. Mae angen mwy o waith meddwl am lif brawddegau, y gystrawen a'r geiriau a ddefnyddir. Mae angen ystyried y pethau sydd ynghlwm wrth eiriau hawdd eu deall a'u trefnu mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ond sydd hefyd yn llifo'n rhwydd.

Ambell dro, er mwyn cael y mynegiant i lifo'n rhwydd, mae gofyn bod yn hyblyg wrth lunio brawddeg. Weithiau, er mwyn cyfleu'r neges yn y ffordd symlaf, mae gofyn aralleirio'r testun gwreiddiol. Gall hyn roi mwy o ryddid i gyfieithydd a gall fod yn well aralleirio yn hytrach na chyfieithu testun Saesneg air am air. Rhaid sicrhau, fodd bynnag, fod yr ystyr yn dal yr un fath a bod yr holl wybodaeth yn cael ei chynnwys.

Dyma rai egwyddorion i'w cadw mewn cof wrth lunio cystrawen Gymraeg hawdd ei deall:

- cadw'r brawddegau mor fyr â phosibl
- sicrhau bod y gystrawen yn gywir er mwyn cadw'r ystyr yn glir
- osgoi glynu'n gaeth wrth gystrawen y Saesneg
- cadw at ferfau yn y stad weithredol, h.y. osgoi berfau amhersonol, er enghraifft:



Llenwir y botel gan Sara bob dydd.



Mae Sara yn llenwi'r botel bob dydd.

1.2. Cyflwyno gwybodaeth

Wrth gyflwyno gwybodaeth, y gamp yw defnyddio cyn lleied o eiriau ag sydd eu hangen, ond sy'n cynnwys y ffeithiau pwysig i gyd. Fe geisiwn ni yn y ddogfen hon fynd i'r afael â'r prif ystyriaethau wrth ymdrin â:

- llunio brawddegau neu ffurfio cysrawen
- geiriau a thermau
- rhannau ymadrodd
- atalnodi
- rhifau
- byrfoddau.

Wrth ddrafftio neu gyfieithu testun, mae'n bwysig ystyried pwy yw'r gynulleidfa darged, natur y testun neu'r ddogfen, a natur y sefydliad neu'r corff sy'n cyflwyno'r wybodaeth. Bydd cadw hyn mewn cof yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y ffordd mwyaf priodol ac effeithiol.

1.3. Gwirio eich gwaith

Mae gwirio eich gwaith yn ofalus yn bwysicach eto gyda gwaith hawdd ei ddeall. Yn arferol, wrth weld gair cyfarwydd gyda llythyren ddieithr yn y sillafiad, byddai pobl yn dod i'r casgliad yn syth mai camgymeriad teipio sy'n gyfrifol. Ond buasai gweld llythyren anghyfarwydd mewn sillafiad yn gallu drysu pobl ag anabledd dysgu.

Yn ddelfrydol, dylid gwirio eich gwaith deirgwaith er mwyn:

- Sicrhau eich bod wedi deall y Saesneg yn iawn a heb hepgor unrhyw beth.
- Sicrhau bod y geiriau a'r gramadeg wedi'u teilwra ar gyfer testun hawdd ei ddeall.
- Sicrhau bod yr iaith yn llifo'n rhwydd trwy ddarllen y ddogfen yn uchel.

Cyngor manylach ac enghreifftiau

2.1. Geirfa

Gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn iaith gyfarwydd yw'r mwyaf priodol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, felly defnyddiwch eiriau bob dydd gan ddefnyddio'r sillafiad safonol, nid yr amrywiadau tafodieithol, hynny yw, eistedd – nid ista neu ishte.

Er hynny, rhaid cofio bod angen rhyw gymaint o efelychu Cymraeg sydd â naws lafar iddi. Dylid osgoi mynegiant llenyddol ffurfiol a manteisio ar ffurfiau mwy cyfarwydd ac anffurfiol eu naws. Mae rhai rhediadau berfol yn fwy cyfarwydd na'i gilydd. Gallwch ddefnyddio'r [Gweiadur](#) er mwyn rhedeg berfau a phenderfynu pa rediadau sy'n rhy ffurfiol a llenyddol a pha rai sy'n fwy addas.

Mae geiriau megis 'nawr' yn lle 'yn awr' yn efelychu'r llafar yn well hefyd.

2.2. Geiriau tafodieithol

Wrth ddysgu darllen mae plant ag anghenion arbennig yn dysgu geiriau sy'n gyffredin ar draws Cymru. Pan fydd dau air gyda'r un ystyr yn cael eu defnyddio mewn gwahanol rannau o Gymru, er enghraifft, tost/sâl, crac/blin, brwnt/budr, dylid dewis y gair sy'n fwy derbyniol yn y cywair llenyddol.

Os nad oes modd dewis rhyngddynt yn hawdd dylid ceisio osgoi y geiriau yn gyfan gwbl ac aralleirio'r hyn sy'n cael ei ddweud.

2.3. Geiriau lleol neu blwyfol eu naws

Ambell dro wrth gyfieithu, efallai y daw gair i'r meddwl fuasai'n ddi-fai i fynegi rhyw ystyr mewn brawddeg. Ond wrth aros i feddwl, efallai y buasai'n air hollol ddieithr i rywun mewn rhan arall o Gymru. Efallai y buasai geiriau fel 'bradu' neu 'andwyo' yn golygu dim byd i bobl y tu allan i ardal benodol. Felly, os nad yw'r ddogfen wedi'i hysgrifennu'n lleol ar gyfer grŵp o bobl leol, buasai'n well osgoi defnyddio geiriau sy'n fwy plwyfol.

2.4. Geiriau benthyg

Defnyddiwch eiriau Cymraeg lle bynnag mae'n bosibl. Weithiau mae rhai geiriau Cymraeg fuasai'n ddigon cyfarwydd yn gyffredinol i siaradwyr Cymraeg, er enghraifft, 'atal' neu 'cludo', yn llai cyfarwydd i bobl ag anabledd dysgu.

Os felly, efallai y buasai geiriau benthyg wedi'u Cymreigio fel 'stopio' a 'cario' yn haws i'w deall. Ond os bydd angen treiglo'r gair benthyg, ceisiwch ei osgoi os bydd y ffurf dreigledig yn edrych yn anghyfarwydd, e.e. tiwb > diwb, dipio > ddipio.

Fodd bynnag, efallai bod modd defnyddio gair Cymraeg arall sy'n fwy cyffredin ar lafar, fel 'rhwystro' yn lle 'atal' neu 'mynd â' yn lle 'cludo'.

2.5. Geiriau anodd eu deall

Ceisiwch feddwl drwy'r amser wrth gyfieithu pa mor gyfarwydd yw'r geiriau rydych chi'n eu defnyddio. Weithiau mae geiriau sy'n hawdd yn y Saesneg yn anodd o'u cyfieithu i'r Gymraeg. Os bydd gair sy'n anodd yn y Gymraeg yn codi, chwiliwch am air sydd â'r un ystyr sy'n haws i'w ddeall. Mae thesawrws ar gael ar-lein i'ch cynorthwyo ar y [Gweiadur](#).

Os bydd yn rhaid defnyddio gair sy'n anodd yn y Gymraeg am air sy'n hawdd yn y Saesneg, gallwch lunio blwch eglurhad ychwanegol i'r hyn a geir yn y testun Saesneg i egluro ystyr y gair hwnnw, er enghraifft:

Rydyn ni am wneud yn siŵr bod **cydraddoldeb** yn rhan o'n gwaith.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl bod pawb yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal.

2.6. Cysondeb Termau

Mae'r termau sydd i'w gweld mewn dogfennau hawdd eu deall yn ymwneud yn benodol â'r wybodaeth sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu ei gwybod. Mae'n bwysig eich bod yn glynu at ddefnyddio'r un termau am bethau penodol trwy gydol y ddogfen.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn defnyddio'r un termau â phobl eraill sy'n ymwneud â darparu testun hawdd ei ddeall yn Gymraeg i bobl ag anabledd dysgu. Felly cyfathrebu â'ch cydweithwyr i sicrhau eich bod yn defnyddio'r un termau ydy'r nod.

Gellir cytuno hefyd ynglŷn â darnau rhagddewisol o fewn dogfennau, ble mae'r un geiriad yn codi dro ar ôl tro, er enghraifft:

- Y testun ar waelod y clawr sy'n dweud pwy yw'r awduron a beth yw'r ddogfen wreiddiol.
- Y testun sy'n egluro sut i ddefnyddio'r ddogfen ond cofiwch bod angen gwirio'r fersiwn Saesneg rhag ofn bod addasiadau i'r testun safonol o ganlyniad i anghenion y cwsmer.
- Eglurhad i'r geiriau anodd sy'n codi dro ar ôl tro.

2.7. Termau swyddogol a ffynonellau

Pan fydd term swyddogol Saesneg yn codi yn yr iaith wreiddiol, chwiliwch am derm cyfatebol Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb drwyddi draw a bydd y term Cymraeg yn ei dro yn dod yr un mor gyfarwydd â'r term Saesneg. Defnyddiwch y ffynonellau safonol yma fel man cychwyn:

- [Byd Term Cymru](#)
- [Porth Termau Cenedlaethol Cymru](#)
- [Y Termiadur Addysg](#)

Ac os nad ydych yn gallu canfod atebion amlwg dylech drafod â'r sefydliad sydd wedi llunio'r ddogfen Saesneg i weld a oes modd iddynt gynnig arweiniad.

O ran geirfa bob dydd a materion ieithyddol cyffredinol bydd yr adnoddau ar-lein yma'n ddefnyddiol:

- [Geiriadur yr Academi](#)
- [Geiriadur Prifysgol Cymru](#)
- [Y Gweiadur](#)

2.8. Geiriau/ymadroddion i'w hosgoi

Hepgor yr 'a' a'r 'ei' ffurfiol

Efallai bod rhai geiriau bach a ddefnyddir yn yr iaith ffurfiol yn gallu creu ychydig o ddryswch, a gellir eu hepgor os yw'r ystyr yn dal yn glir hebddynt.

Er enghraifft, gellir hepgor yr 'a':

- ar ddechrau cwestiwn

☐ A oes ganddyn nhw ddigon?

☒ Oes ganddyn nhw ddigon?

- sy'n rhagenw perthynol

☐ Mair oedd y ferch a gafodd lyfr

☒ Mair oedd y ferch gafodd lyfr.

Gellir hefyd hepgor yr 'ei' sy'n wrthrych cyflenwol, sef yr 'ei' sy'n cael ei ddefnyddio yn lle'r gwrthrych mewn brawddeg i roi pwyslais ar y gwrthrych. Er enghraifft:

☒ **Beth rydych chi'n ei wneud?**

☐ **Beth rydych chi'n wneud?**

☒ **Moron ydych chi'n ei fwyta?**

☐ **Moron ydych chi'n fwyta?**

Dylid cadw'r treigladd sy'n cael ei achosi gan yr 'ei' er cywirdeb a chysondeb.

Ffurfiau benywaidd ansoddeiriau

Os nad ydyn nhw'n gyffredin iawn, mae'n well osgoi ffurfiau benywaidd ansoddeiriau, megis crwn > cron, syth > seth. Mae'r rhain yn debygol o edrych yn ddieithr. Er hynny, gellir defnyddio rhai sydd i'w clywed yn ddigon aml yn yr iaith lafar, er enghraifft:

gwyn > gwen e.e. het wen

cryf > cref e.e. merch gref

tlws > tlos e.e. menyw dlos

trwm > trom e.e. ochenaid drom

Ffurfiau lluosog ansoddeiriau

Mae'r un peth yn wir am ffurfiau lluosog ansoddeiriau, er enghraifft:

caled > caledion

gwyrdd > gwyrddion

Ac eto gellir defnyddio rhai sydd i'w clywed yn ddigon aml yn yr iaith lafar, er enghraifft:

gwyllt > gwylltion e.g. adar gwylltion

du > duon, e.g. mwyar duon

Rhai ffurfiau lluosog enwau

Weithiau mae ffurf lluosog rhai enwau yn edrych yn gymhleth, er enghraifft, geiriau lle mae'r lluosog wedi'i greu trwy newid elfennau o fewn y gair. Efallai bod modd gwneud pethau'n haws i'w deall trwy newid patrwm y frawddeg ychydig er mwyn i'r gair ymddangos yn ei ffurf unigol, er enghraifft:



Mae'r gweithfeydd glo i gyd wedi cau.



Mae pob gwaith glo wedi cau.

Geiriau sy'n cynnwys rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid

Weithiau gall geiriau sy'n cynnwys rhagddodiaid edrych yn ddieithr. Gall gweld ffurf gysefin gair o fewn gair sy'n cynnwys dodiad beri penbleth.

Un enghraifft yw'r gair 'gweithio'; gall hwn fod yn ddigon hawdd ar ei ben ei hun, ond mae ychwanegu'r llythrennau 'rhyng' o'i flaen yn creu'r gair hir 'rhyngweithio'.

Mae hwn yn fwy anodd i'w ddarllen a'i ddeall, yn enwedig gyda'r treigladau yn y canol.

Ystyriwch y cyd-destun ac a yw'r gair â'r rhagddodiad yn debygol o fod yn gyfarwydd yn y cyd-destun hwnnw. Fel arall, gall fod yn well aralleirio, er enghraifft:

- ☐ **Echdoe**
- ☒ **Y diwrnod cyn ddoe**
- ☐ **Rhyngweithio**
- ☒ **Sgwrsio a rhannu syniadau er mwyn gwneud pethau'n well**

Neu gallwch nodi ystyr y gair mewn blwch eglurhad ar wahân i'r prif destun (gweler enghraifft ar dudalen 11).

Felly hefyd yr ôl-ddodiaid sy'n cael eu hychwanegu i newid y rhan ymadrodd. Gall newid enw neu ferfenw yn ansoddair greu gair sy'n edrych yn hollol ddieithr i bobl ag anabledd dysgu. Mae ychwanegu '-edig' at y berfenw 'ysgrifennu' i greu'r ansoddair 'ysgrifenedig', yn cyflwyno gair sy'n debygol o fod yn anodd ei ddarllen. Gall hyn atal llif y darllen gan wneud iddyn nhw anghofio'r hyn y maen nhw wedi'i ddeall yn barod. Gall fod yn well felly osgoi ffurfiau cymhleth a defnyddio ffurf gwmpasog yn eu lle:

- ☐ **Ysgrifenedig**
- ☒ **Wedi ei ysgrifennu**
- ☐ **Blodeuog**
- ☒ **Yn llawn blodau**

Eto'i gyd, rhaid peidio â gwneud hyn yn rheol gadarn, ac osgoi defnyddio ôl-ddodiaid yn gyfan gwbl. Mae geiriau fel 'heulog' a 'gwyntog', er enghraifft, yn ddigon cyffredin.

Idiomau a phriod-ddulliau Cymraeg

Dylid osgoi defnyddio rhai idiomau a phriod-ddulliau Cymraeg. Gan fod llawer o bobl ag anabledd dysgu yn cymryd iaith yn llythrennol, buasai darllen ambell briod-ddull Cymraeg mewn brawddeg yn achosi dryswch iddynt, er enghraifft:

- ✗ **Roedd y plant yn dechrau mynd dros ben llestri.**
- ✗ **Mae'r dyn drws nesa wedi gorfod talu trwy ei drwyn am deledu newydd.**

Cysyniadau ffigurol

Cysyniadau ffigurol yw ffordd o siarad neu fynegiant trosiadol. Wrth gyfieithu cysyniadau o'r fath, ceisiwch beidio â'u cyfieithu'n llythrennol neu air am air. Meddylwch beth yw'r ystyr a'u haralleirio mewn ffordd syml, er enghraifft, cyfieithwch 'keep track of' â rhywbeth fel 'cadw golwg ar' (yn hytrach na 'cadw at y trywydd') a 'lay hands on' â rhywbeth fel 'dod o hyd i' (yn hytrach na 'rhoi eich llaw ar').

Byrfoddau

Mae'n well osgoi byrfoddau, oni bai eu bod yn gyffredin iawn yn Gymraeg. Rhowch yr enw neu'r term llawn drwy'r ddogfen os nad oes byrfodd cyffredin Cymraeg ar gael.

2.9. Ansoddeiriau

Gweler dan ‘Geiriau/ymadroddion i’w hosgoi’ ar dudalen 14.

2.10. Arddodiaid

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio’r arddodiaid cywir er mwyn osgoi dryswch. Gallwch wirio pa arddodiad sydd i fod i ddilyn berf yn y [Gweiadur](#) neu [Geiriadur yr Academi](#).

2.11. Arddodiaid rhediadol

Gan fod cymaint o amrywiadau ar ffurfiau rhediadol tafodieithol, gwell fyddai cadw at y dull sy’n dilyn patrwm y ffurfiau llenyddol, ond gyda therfyniadau anffurfiol mwy llafar, er enghraifft, o ran yr arddodiaid lle mae’r bôn yr un fath drwy gydol y rhediad:

amdana i

amdanon ni

amdanat ti

amdanoch chi

amdano e

amdanyn nhw

amadani hi

Ac i'r grŵp o arddodiaid sydd â bôn trydydd person yn y rhediad, defnyddio'r arddodiad ei hun fel bôn, gan newid yn y trydydd person yn ôl y drefn, er enghraifft:

droso i	droson ni
drosot ti	drosoch chi
drosto e	drostyn nhw
drosti hi	

2.12. Berfau yn eu ffurf gwmpasog

Mae ffurfiau berfol cwmpasog yn haws i'w deall ran amlaf, felly, pan yw'n briodol, defnyddiwch ffurfiau berfol cwmpasog sy'n cynnwys rhediad mwy llafar y ferf 'bod' + berfenw, er enghraifft, 'Rydw i'n gweithio' yn hytrach na 'Gweithiaf' ac 'Roedden nhw yn cerdded' yn hytrach na 'cerddasant'.

2.13. Berfau cryno yn yr Amser Gorffennol

Er bod ffurfiau cwmpasog y ferf yn haws i'w deall ran amlaf, mae modd defnyddio rhai ffurfiau cryno, sydd fel arfer yn yr Amser Gorffennol. Mae'r rhain yn codi ar lafar ac yn debygol o fod yn gyfarwydd i'r defnyddwyr, er enghraifft, 'digwyddodd', 'cafodd'.

Dyma rai enghreifftiau o ferfau cryno anffurfiol:

- ☒ **cofion ni, cofion nhw**
- ☐ **cofiasom ni, cofiasant hwy**
- ☒ **ces i, cawson ni, cawson nhw**
- ☐ **cevais i, cawsom ni, cawsant hwy**

O ran ffurfiau'r ferf 'bod', mae'r Amser Gorberffaith hefyd i'w glywed ar lafar gyda'r ffurfiau:

baswn i, basai e, basen ni, ayyb.

Gwelir enghreifftiau o'r berfau cryno anffurfiol yn y '[Berfiadur](#)' yn y Gweiadur neu dan 'Y Tabl Berfau' yn [Geiriadur Cymraeg Gomer, D. Geraint Lewis](#).

Ambell dro mae defnyddio'r geiryn berfol 'fe' o flaen ffurfiau cryno yn gwneud i'r testun lifo'n well. Os ydych chi am ddefnyddio geiryn berfol mewn testun hawdd ei ddeall, dewiswch 'fe' yn hytrach na 'mi' er cysondeb, er enghraifft:

Fe ges i lawer o hwyl yn y ganolfan.

2.14. Berfau ymadroddol Saesneg

Berfau ymadroddol yw berfau sydd ag arddodiad neu adferf wedi'i ychwanegu atynt, sy'n rhoi ystyr ychwanegol iddynt. Mae llawer o'r rhain i'w cael yn y Saesneg hefyd, ac yn aml iawn rydyn ni'n cyfieithu'r rhain yn slafaid ar lafar. Peidiwch â chael eich temptio i wneud hynny, ond yn hytrach ceisiwch ddod o hyd i ffordd Gymraeg o'u mynegi, er enghraifft, cyfieithwch 'run out of paper' gyda rhywbeth fel 'does dim papur ar ôl (nid 'rhedeg allan o bapur')'.

2.15. Ffurfiâu negyddol berfau

Mae'r gystrawen 'Dydy ddim ' yn well ran amlaf ar gyfer testun hawdd ei ddeall, er enghraifft:

Dydy'r ysbyty ddim yn bell.

Ond ambell dro mae 'nad' yn llifo'n well mewn rhai cystrawennau ac mae'n debygol o fod yn ddigon hawdd i'r defnyddwyr, er enghraifft:

Roedden ni'n synnu nad oedd digon o le i bawb.

2.16. Cyfarch y darllenydd yn uniongyrchol ag ail berson lluosog berfau

Mae cyfarch y darllenydd trwy ddefnyddio'r ail berson lluosog neu'r rhagenw 'chi' yn ei gwneud hi'n glir bod yr wybodaeth y mae'n ei ddarllen yn berthnasol iddo ef. Mae'r ail berson lluosog mwy ffurfiol yn hytrach na'r unigol, neu'r rhagenw 'ti' yn fwy priodol ran amlaf gan ei fod yn cyfleu ymdeimlad o barch tuag at y darllenydd, er enghraifft:



Dywedwch pa mor bwysig yw'r pethau hyn i chi.

Er hynny, os yw'r ddogfen yn amlwg wedi ei hysgrifennu ar gyfer plant, gallai'r unigol 'ti' fod yn fwy addas.

2.17. Enwau

Gweler 'Rhai ffurfiau lluosog enwau' ar dudalen 17.

2.18. Atalnodi

Yn y bôn, mae atalnodi yn rhan annatod o gystrawen gan ei fod yn helpu i osgoi amwysedd a gwneud y mynegiant yn glir. Er hynny, er mwyn cynnwys cyn lleied ag sy'n bosibl o bethau i ganolbwyntio arnynt, mae'n well defnyddio cyn lleied â phosibl o farciau atalnodi. O gadw brawddegau'n fyr a'r mynegiant yn syml, dydy'r angen am atalnodi ddim yn codi mor aml. Eto'i gyd, mae'n bwysig eu defnyddio i gadw'r ystyr yn glir.

Mae angen:

- atalnod llawn
- gofynnod (marc cwestiwn)
- ambell goma pan fo raid i gadw'r ystyr yn glir
- defnyddio pwyntiau bwled ar gyfer rhestru enghreifftiau.

Dylid osgoi:

- **defnyddio cromfachau:** yn lle hynny ysgrifennwch frawddeg gyfan, er enghraifft:

- ☐ Mae yna gynllun sy'n cael ei alw'n 'Smart Export Guarantee' (SEG).
- ☒ Mae yna gynllun sy'n cael ei alw'n 'Smart Export Guarantee'. Rydyn ni'n galw hyn yn SEG.

- **defnyddio cysylltnodau,** ar wahân i'r rhai sy'n rhan o'r orgraff Gymraeg, wrth gwrs. Defnyddiwch eiriau yn lle cysylltnodau os yw'n bosibl, er enghraifft:

- ☐ 2022-2024
- ☒ o 2022 i 2024.

2.19. Rhifolion

Gan fod ffurfiau benywaidd yn cael eu defnyddio ar lafar yn Gymraeg ar gyfer 2, 3, a 4, er enghraifft, dwy gath, tair merch, ayyb, defnyddiwch eiriau am y rhifau hyn, hynny yw, dau/dwy, tri/tair, pedwar/pedair.

Hefyd mae rhai rhifau'n achosi treigladd, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar lafar, er enghraifft, pum mlwydd oed, deng mlynedd. Da o beth fyddai cadw'r ffurfiau cyfarwydd hyn trwy ddefnyddio geiriau am y rhifau 0–10.

Wrth gyfrif pethau, defnyddiwch rifolion i gynrychioli rhifau sy'n uwch na deg, gan nad yw defnyddio ffurfiau benywaidd a threiglo mor gyfarwydd yn yr iaith lafar o hynny ymlaen.

Er hynny, bydd angen defnyddio'r system ugeiniol wrth ddweud faint o'r gloch yw hi. Os bydd angen cyfleu'r amser mewn geiriau, defnyddiwch 'ugain munud wedi ...' neu 'bum munud ar hugain wedi ...', fel y gwneir fel arfer ar lafar. Fel arfer bydd llun cloc gyda'r amser cyfatebol arno i gadarnhau yr hyn a glywir o ddarllen y testun yn uchel.

2.20. Trefnolion

Defnyddiwch eiriau yma yn hytrach na rhifau, h.y. cyntaf, ail a thrydydd yn hytrach na 1af, 2il a 3ydd, gan dreiglo fel ag a wneir yn naturiol ar lafar, er enghraifft:



Y ferch gyntaf, yr ail dro.

Dyluniad Hawdd ei Ddeall

Mae dylunio yr un mor bwysig â thestun mewn dogfennau Hawdd ei Ddeall. Mae Hawdd ei Ddeall yn defnyddio delweddau ategol i'r chwith o bob paragraff i helpu gyda dealltwriaeth.

Dylech ddewis delweddau ategol sy'n esbonio eich paragraff o destun. Weithiau, defnyddir testun o fewn delweddau ategol i wneud eu hystyr yn gliriach. Os oes testun ar y dogfennau ategol, rhaid eu cyfieithu i'r Gymraeg mewn dogfennau Hawdd ei Deall Cymraeg.



Ystyriaethau pwysig eraill:

- Defnyddiwch rhwng 4 a 5 delwedd ategol fesul tudalen A4, yn dibynnu ar hyd a dwysedd eich testun.
- Gadewch ddigon o le gwyn rhwng paragraffau, delweddau ategol ac ymylon.
- Alinio delweddau ategol yn llorweddol gyda'r paragraff maen nhw'n ymwneud ag ef.
- Gwnewch ddelweddau ategol mor glir â phosibl.

Am fwy o ganllawiau dylunio Hawdd ei Ddeall, gweler ein hadnoddau am ddim:

- Clir a Hawdd: hawddeiddeall.cymru/adnoddau/llawlyfr-clir-a-hawdd
- Fideos hyfforddi Hawdd eu Ddeall: hawddeiddeall.cymru/adnoddau
- Hyfforddi Hawdd ei Ddeall: ldw.org.uk/cy/training-events/scheduled-events-courses

Diolch

Gobeithiwn eich bod wedi gweld y canllaw hwn yn ddefnyddiol. Mae'n cymryd amser ac ymarfer i ddod i arfer ag ysgrifennu a chyfieithu Hawdd ei Ddeall.

Rydym yn hapus iawn i roi arweiniad a chefnogaeth i'ch helpu i greu eich dogfennau Hawdd ei Ddeall eich hun, ac i ddarparu dyfynbrisiau ar gyfer gwneud y gwaith ar eich rhan. Gallwch gysylltu â ni yn:

Gwefan: HawddeiDdeall.Cymru

Ebost: EasyRead@ldw.org.uk

Ffôn: 029 2068 1160

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gwaith hwn:

Diolch i Eluned Jones am arwain ar y gwaith hwn a rhannu eich gwybodaeth a'ch profiad.

Diolch i Eleri James a Manon Davies o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am eu holl gyngor a chefnogaeth.

Diolch i'n cyfieithwyr Elin Tudur a Helen Lowcock-James, ac i'r rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau adborth, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich arweiniad a'ch syniadau.